



## PWNC

Kindertransport

Ffoaduriaid sy'n Blant yng  
Nghymru

## GRŴP OEDRAN

Blwyddyn 7 (12 oed)

Cam Cynnydd 4

## HYD

1 awr

## MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd  
a Chyfathrebu

## DISGRIFIAD

Yn y gweithgaredd hwn, bydd myfyrwyr yn dysgu am profiad y plant a wnaeth ffoi yn ystod y 1930au a'u dyfodiad i Gymru. Byddant yn datblygu dealltwriaeth o'r heriau a wynebodd y plant ac ymateb y cymunedau lleol. Byddant hefyd yn dysgu am y profiadau cyffredin a gafodd y plant, yn ogystal â'r gwahaniaethau.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhan o'r modiwl *Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru* ac argymhellir cwblhau Gweithgareddau 1 a 2 y modiwl hwn cyn cwblhau'r gweithgaredd hwn.\*

## NODAU DYSGU

O ganlyniad i gwblhau'r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:

- Datblygu dealltwriaeth o'r heriau a wynebir wrth gyrraedd cymuned/cartref newydd.
- Datblygu dealltwriaeth o sut y gall y profiad a rennir gan blant sy'n ffoaduriaid fod yn debyg ac yn unigryw.
- Deall sut y gall cymunedau helpu i groesawu ffoaduriaid.

## OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, taflunydd, cyfrifiadur i wrando ar y dystiolaeth fideo, papur/cerdyn/pennau/pensiliau lliwio, glud, tâp gludiog, argraffydd, offer recordio fideo (ffôn clyfar/ tabled).

\* Ceir rhestr lawn o weithgareddau ar ddiwedd y ddogfen hon.



## Ystyriwch

Ar y bwrdd, ysgrifennwch y geiriau 'Cartref' a 'Cymuned'. Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am y geiriau hyn ac fel dosbarth, gofynnwch iddyn nhw gynnig pa eiriau sy'n dod i'r meddwl pan fyddant yn meddwl am y mynegiant hwn.

Gofynnwch iddyn nhw feddwl pa anawsterau y gall plant sydd wedi ffoi eu hwynebu wrth gyrraedd cartref newydd a chymuned newydd. Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau bach ac ysgrifennu ar y Daflen Waith i Fyfyrrwyr bum peth allai fod yn heriol i'r plant sydd wedi ffoi (**Tasg 1**).

Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl sut y gallen nhw helpu gyda'r heriau hynny ac ysgrifennwch yr ymatebion ar y bwrdd.

## Casglu


*Nodyn: Dylai myfyrwyr gwblhau'r ddwy dasg yn yr adran hon trwy weithio mewn parau neu grwpiau bach.*

Dywedwch wrth y myfyrwyr y byddant yn gwrandao ar ddwy dystiolaeth:

- Adroddiad Mary Hochberg am gyrraedd Abergele.
- Adroddiad Robert Wasserberg am gyrraedd Llanwrtyd.

Yna, gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau bach ac atebwch y cwestiynau isod trwy gwblhau diagram Venn (**Tasg 2**).

1. Sut mae Mary a Robert yn disgrifio eu cartref a'u cymuned newydd? Rhestrwch dair enghraifft.
2. Beth mae'r clip yn ei ddweud am y gymuned leol ac am deimlo eu bod yn cael eu croesawu? Rhestrwch 2 enghraifft.
3. Pa heriau mae Robert a Mary yn eu hwynebu? Rhestrwch 3 enghraifft.



## Nodiadau Athrawon

**Gweithgaredd 3: Kindertransport  
a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3  
- Cyrraedd Cymru**

Yn olaf, gofynnwch i'r myfyrwyr archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau ym mhrofiadau Mary a Robert ac ysgrifennu eu hatebion ar y daflen waith (**Tasg 3**). Dylai myfyrwyr gyfeirio at y diagram Venn y maent wedi'i gwblhau.

1. Sut oedd profiadau Mary a Robert yn debyg? Rhestrwch dair enghraifft.
2. Sut oedd profiadau Mary a Robert yn wahanol? Rhestrwch dair enghraifft.

## LLunio

Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau bach i greu collage o'r ymadrodd FFOADURIAID gan ddefnyddio eu lluniau teulu/cymuned eu hunain neu gyfleu eu profiad trwy dynnu llun. Er enghraifft, efallai y bydd y myfyrwyr am dynnu lluniau/geiriau sy'n cynrychioli'r hyn a drafodwyd yn ystod y wers neu'r modiwl, e.e. Diogelwch, Taith, Adref, Cymru, Cymunedau Croesawgar, ac ati.

Ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn gallu darparu'r ffotograffau neu nad ydynt yn dymuno tynnu llun, gallwch argraffu'r ffotograffau yn **Nhaflen 1**.

Wrth ffurfio'r grwpiau, sicrhewch fod rhai myfyrwyr ym mhob grŵp yn tynnu lluniau a rhai yn defnyddio ffotograffau.

## Cyfathrebu

O fewn y grwpiau bach, gofynnwch i'r myfyrwyr drafod eu gwaith celf/ffotograffau a'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu am y Kindertransport a phrofiadau'r plant a wnaeth ffoi. Recordiwch glipiau byr o'r trafodaethau a'u lanwytho i wefan yr ysgol. Arddangoswch y collage a'r testun cysylltiedig yn y dosbarth/coridor.

## Nodiadau Athrawon

# Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru

## Appendices

1. Taflen 1: Delweddau.
2. Taflen 2: Trawsgrifiadau Fideo.
3. Taflen 3: Taflen Waith y Myfyrwyr.

## Rhestr o Weithgareddau

- Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.
- Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 – Y Daith.
- Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.
- Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.
- Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.
- Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.
- Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.
- Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.
- Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.
- Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.

## Delwedd Clawr

*Abernant Lake Hotel yn Llanwrtyd, Medei 2019. Delwedd: JHASW/CHIDC.*

